



Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Datganiad Polisi: Mae dull effeithiol o lywodraethu gwybodaeth yn cynorthwyo'r Comisiynydd yn ei rôl fel y'i nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), i weithio'n unol ag egwyddorion didwylledd a thryloywder ac amddiffyn preifatrwydd mewn modd priodol. Mae'n darparu fframwaith cadarn o fewn yr hwn y cesglir gwybodaeth, ei chadw, ei defnyddio a'i rhannu.

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod arwyddocâd a gwerth gwybodaeth fel ased ac adnodd corfforaethol a'r risgiau sy'n dod yn sgil llywodraethu gwybodaeth mewn dull aneffeithiol. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n dda yn unol â safonau arfer gorau ac yn unol â dyletswyddau cyfreithiol y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r holl staff a phobl gysylltiedig weithio mewn ffordd sy'n sicrhau didwylledd a thryloywder tra'n gwarchod gwybodaeth bersonol unigolion.

Ym Mai 2018 mae'r gyfraith ar drin gwybodaeth bersonol yn newid; mae ein holl bolisiau a'n gweithdrefnau sy'n berthnasol i wybodaeth wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn unol â'r gyfraith ac yn parhau i gynorthwyo ein harferion gwaith.

Deddfwriaeth Berthnasol

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA), y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR), y Ddeddf Diogelu Data (DPA), Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Cyfrifoldebau

Mae'r Comisiynydd (fel corfforaeth undyn) yn dirprwyo awdurdod dros gydymffurfriad Rhynglywodraethol i'w thîm o uwch staff.

- Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth Adnoddau Dynol
- Swyddog Diogelu Data
- Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol
- Rheolwr Swyddfa
- Mae'n ofynnol i holl staff a chydweithwyr i gydymffurfio â'r polisi hwn.

Polisiau Perthnasol

Diogelwch TG & Pholisi Defnydd Derbyniol

Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Polisi Rhyddid Gwybodaeth (FOI) & Rheoliadau Amgylcheddol

Polisi Diogelu Gwybodaeth

Mynediad i Ganllawiau Gwybodaeth

Polisi mynediad diawdurdod at ddata

Disgwyliadau

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r holl staff a chydweithwyr ymddwyn mewn ffordd sy'n cynorthwyo'r ymrwymïadau hyn ac sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion hyn.

Gallai unrhyw fethiant gan staff i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth arwain at ymchwiliad ffurfiol ac/neu gamau disgyblu.

Gallai ymddygiad diawdurdod neu ddatgeliad amhriodol gael ei adrodd i'r heddlu i'w archwilio fel trosedd.

Ymagwedd

Mae ein hymagwedd tuag at lywodraethu gwybodaeth yn rhoi i ni fframwaith o fewn yr hwn y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei chadw a'i defnyddio. Mae'n seiliedig ar bedwar maes allweddol:

Systemau, Polisïau, Gwybodaeth, Pobl

1. Systemau - y systemau a ddefnyddiwn i gasglu, storio, trefnu a chyrru gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys systemau CRM, pob ffolder a rennir a rhai personol. Gall Systemau Sharepoint hefyd gynnwys "y ffordd yr ydym yn gwneud pethau". Mae'r Comisiynydd wedi buddsoddi mewn seilwaith a systemau TG i gynorthwyo staff a chydweithwyr yn eu rolau. Mae systemau rheoli gwybodaeth (CRM) yn cael eu datblygu a fydd yn caniatáu i wybodaeth gyswllt gael ei rheoli'n fwy systematig.
2. Polisïau a gweithdrefnau - mae'r rhain wedi eu dylunio i gynorthwyo staff i drin gwybodaeth gyda chysondeb ac i gydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt (rhai sefydliadol a chyfreithiol). Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau llywodraethu gwybodaeth wedi eu dylunio i sicrhau bod cyfrifoldebau cyfreithiol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni a bod y risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli.



3. Gwybodaeth - i reoli gwybodaeth yn dda a chydymffurfio'n gyfreithiol mae arnom angen gwybod pa fath o wybodaeth yr ydym yn ei chadw a pham, ble a sut y caiff ei chadw, sut y gallwn ei chyrchu a phryd i'w chadw neu ei dinistrio. Gall y bydd rhai categorïau gwybodaeth yn fwy sensitif a mwy o risg yn gysylltiedig â hwynt.
Mae archwiliad o asedau gwybodaeth wedi ei gynnal i ddeall y math o wybodaeth a gedwir gennym yn rheolaidd a'r risgiau sefydliadol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae ein polisiau, ein gweithdrefnau a'n harferion wedi cael eu hadolygu a'u datblygu i fynd i'r afael â'r risgiau a chynorthwyo'n ymarferol y ffordd sydd angen i ni weithio.
4. Pobl - ein ased mwyaf sydd hefyd yn allweddol o safbwynt risg. Gan amlaf camgymeriadau dynol yn hytrach na methiant y system sy'n gyfrifol am ymddygiad diawdurdod, colli rhywbeth ar ddamwain neu ddatgelu gwybodaeth mewn dull amhriodol. Rydyn ni'n rhoi ar waith bolisiau a gweithdrefnau a chynllun hyfforddi i sicrhau bod yr holl staff yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r ddeddf diogelu gwybodaeth. Bydd ein dogfennau polisi a chanllawiau diwygiedig yn darparu ffynonellau o wybodaeth a chymorth parhaus i staff.

Sefydlu a hyfforddi

Bydd staff newydd yn cymryd rhan mewn sefydlu strwythuredig gorfodol sy'n cwmpasu materion sylfaenol trefniadau Llywodraethu gwybodaeth y Comisiynydd. Bydd adnodd hyfforddi'n cael ei ddatblygu y bydd yn ofynnol i'r holl staff ei gwblhau a'i basio'n llwyddiannus. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ailadrodd yn flynyddol.

Bydd hyfforddiant /codi ymwybyddiaeth pellch yn cael ei ddarparu wrth i faterion newydd neu faterion busnes gael eu hadnabod.

Gwybodaeth Bellach, Cyngor a Chymorth

Yn y lle cyntaf dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data (DPO) Sang-Jin Park gydag unrhyw gwestiynau am lywodraethu gwybodaeth.

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2ail Lawr, Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill
Caerdydd, CF10 2HH



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

Ebost: wales@ico.org.uk

<https://ico.org.uk>

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales